# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Cefnogaeth a chymorth i wella perfformiad*

### 102 Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu unrhyw gefnogaeth a chymorth i brif gyngor y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.

(2) Caiff prif gyngor ofyn i Weinidogion Cymru ystyried darparu cefnogaeth a chymorth i'r cyngor o dan is-adran (1).

(3) Cyn darparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyngor ynglŷn â'r gefnogaeth a'r cymorth y maent yn bwriadu eu darparu.

(4) Mae'r swyddogaeth yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer—

(a) i ymrwymo i gontract neu gytundeb neu drefniant arall ag unrhyw berson;

(b) i gydweithredu ag unrhyw berson, neu i hwyluso neu gydgysylltu gweithgareddau unrhyw berson;

(c) i ddarparu staff, nwyddau, gwasanaethau ac adeiladau neu ystafelloedd i unrhyw berson.